



Bodlondeb
Conwy
LL32 8DU
(01492) 574000
Cyf/Ref: CCBC-040261

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
(Rhos Promenade Llandrillo yn Rhos)(Gwahardd ar Aros)
Gorchymyn (Arbrofol) 2021

Ar 19 Gorffennaf 2021 gwnaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy y Gorchymyn uchod dan adran 9 a 10 a Rhan IV o Atodlen 9 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a'r holl bwerau eraill y maent yn eu galluogi. Effaith y Gorchymyn pan ddaw i rym ar 1 Awst 2021 fydd gwahardd aros gan unrhyw gerbydau ar unrhyw adeg ar y darn o ffordd a nodir yn yr Atodlen isod.

Fe ddaw'r Gorchymyn i rym ar 1 Awst 2021 a bydd yn aros mewn grym am gyfnod dim hirach na 18 mis. Gellir archwilio copi o'r Gorchymyn, ynghyd â chynllun yn dangos y darn ffordd y mae'r Gorchymyn yn ymwneud ag ef, a datganiad o resymau'r Cyngor dros wneud y Gorchymyn ar wefan y Cyngor. Gallwch wneud cais am ddogfennau papur trwy ffonio 01492 575337.

Dylai unrhyw un sydd am wneud sylw, p'un ai i wrthwynebu neu gefnogi'r Gorchymyn cyn iddo gael ei wneud yn barhaol, wneud hynny mewn ysgrifen gan nodi ar ba sail y maent yn cael eu gwneud, o fewn 6 mis i'r Gorchymyn Arbrofol dod i rym at yr Adran Draffig, yr Amgylchedd Ffyrdd a Chyfleusterau, Blwch Post 1 Conwy LL30 9GN neu at traffig@conwy.gov.uk.

Os ydych am gwestiynu dilysrwydd y Gorchymyn neu unrhyw ddarpariaeth ynddo ar y sail nad yw o fewn y pwerau a roddir gan Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, gallwch wneud cais i'r Uchel Lys i'r perwyl hwn o fewn chwe wythnos o ddyddiad y rhybudd hwn.

Atodlen

Gwahardd aros ar unrhyw adeg

Rhos Promenade	Ochr orllewinol; o bwynt 63 metr i'r gogledd o'i chyffordd â Penrhyn Avenue am 18 metr i gyfeiriad y gogledd.
-----------------------	--

Dyddiedig: 22 Gorffennaf 2021

Rhun ap Gareth
Pennaeth y Gyfraith a Llywodraethu

